SIARTER FYD-EANG CANSER YR OFARI

GLOBAL **OVARIAN** CANCER CHARTER
a World Ovarian Cancer Coalition initiative

Dylai menywod sy'n datblygu canser yr ofari gael y cyfle gorau posibl o oroesi ac ansawdd bywyd da, lle bynnag y maent yn byw. Yn y pen draw, bydd buddsoddiad parhaus mewn ymchwil a seilwaith yn darparu opsiynau diagnostig a thriniaeth newydd a gwell, ond mae cyfleoedd i symud ymlaen ar hyn o bryd drwy chwe **Nod Byd-eang** y Siarter

Mae Siarter Fyd-eang Canser yr Ofari yn galw ar bawb sydd wedi ymrwymo i wella goroesiad ac ansawdd bywyd i fenywod â chanser yr ofari i weithredu

BLAENORIAETH FYD-EANG

Rhaid i ganser yr ofari ddod yn flaenoriaeth fyd-eang, fel bod y baich a'r heriau cynyddol o drin menywod sydd â chanser yr ofarïau yn llwyddiannus, yn cael eu cydnabod a'u cynllunio ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae canser yr ofari ar gynnydd. Bydd achosion byd-eang yn cynyddu 50% erbyn 2050, gyda gwledydd datblygol yn ysgwyddo'r baich mwyaf. Yn yr astudiaeth "Every Woman Study™" nid oedd dros ddwy ran o dair o'r menywod a gafodd ddiagnosis wedi clywed am y clefyd cyn eu diagnosis. Mae codi ymwybyddiaeth a'r angen i weithredu yn allweddol.

DIAGNOSIS CYFLYM

Rhaid i fenywod allu cael mynediad at ddiagnosis yn ddi-oed.

Roedd yr astudiaeth "Every Woman Study™ " yn dangos ei bod yn cymryd chwe mis ar gyfartaledd i fenywod gael diagnosis o ganser yr ofari o'r pan wnaethant sylwi gyntaf ar symptomau. Rhaid gwella ymwybyddiaeth o symptomau fel bod menywod yn ceisio ac yn cael cymorth priodol yn gyflym. Mae angen cymorth ar feddygon hefyd fel eu bod yn gwybod pwy ddylai gael eu profi ac er mwyn iddynt allu cael gafael ar brofion yn ddi-oed a thrwy hynny alluogi mwy o fenywod i ddechrau a goddef triniaeth yn gyflym.

Y GOFAL GORAU POSIBL

Rhaid i fenywod allu cael llawdriniaeth, triniaethau a threialon clinigol sy'n gwneud y gorau o'u cyfle i oroesi ac ansawdd bywyd, ni waeth ble maent yn byw.

Mae meddyginiaethau personol yn trawsnewid triniaethau a chanlyniadau i rai menywod sydd â chanser yr ofari, gyda'r potensial i helpu llawer mwy. Mae tystiolaeth yn dangos bod llawdriniaeth canser yr ofari, a gyflawnir gan lawfeddygon profiadol iawn a hyfforddedig mewn canolfannau cyfaint uchel yn cynnig y cyfle gorau i oroesi. Ledled y byd, mae llu o dreialon clinigol addawol yn mynd rhagddynt. Eto, ar gyfer yrhain oll, gall mynediad a gwybodaeth fod yn anghyson, yn anghymesur, a hyd yn oed ddim yn bodoli i gleifion a'u meddygon.

Ni ddylai diffyg cyllid fod yn rhwystr i'r gofal gorau posibl, a rhaid inni beidio â chaniatáu i'r bwlch rhwng y gwledydd sydd â'r adnoddau uchaf a'r rhai sy'n adnodd isel ehangu ymhellach. Rhaid gwella mynediad fforddiadwy at driniaethau o ansawdd, amlfodd, meddyginiaethau hanfodol, technolegau, ac oncoleg lawfeddygol er mwyn sicrhau lefel safonol a graddau'r gofal, gan gysoni a gwella'r adnoddau sydd ar gael gyda chanllawiau clinigol sy'n seiliedig ar hyder ar gyfer canser yr ofari. Wedi dweud hynny,ymhob lleoliad, gwella'r status quo ddylsai fod y nod bob amser.

HANES Y TEULU

Rhaid i fenywod a meddygon gael mynediad at brofion a chwnsela genetig priodol ac amserol.

I fenywod sydd â hanes teuluol o ran ofari a chanserau eraill sy'n gysylltiedig â geneteg (e.e. canser y fron, pancreatig, prostad, crothol a chanser y coluddyn) mae'n bwysig penderfynu a ydynt hwy neu eraill yn eu teulu hefyd mewn perygl. Mae hyn yn gofyn am godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwybod am hanes canser ar ddwy ochr y teulu gan alluogi menywod i gymryd camau i feintioli a lleihau eu risg os oes angen. I fenywod sy'n cael diagnosis o ganser yr ofari, gyda neu heb hanes teuluol, gall mynediad at brofion genetig a chwnsela prydlon alluogi mynediad i driniaethau personol ac adnabod eraill a all fod mewn perygl. Lle y gall stigma cymdeithasol ynghylch canser etifeddol fodoli, efallai y bydd angen mentrau ymwybyddiaeth ehangach i oresgyn yr heriau hyn.

GWELLA DATA

Rhaid i'r data a ddefnyddir i ddatblygu cynlluniau a thriniaethau ar gyfer rheoli canser adlewyrchu amrywiaeth y poblogaethau lleol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Mae ansawdd a maint y data yn amrywio o amgylch y byd, sy'n golygu nad oes modd mesur baich y clefyd na datblygu cynlluniau canser ar sail tystiolaeth mewn llawer o leoedd. Mewn rhai rhanbarthau, bydd hyn yn golygu mynd i'r afael â'r diffyg cofrestru canser. Os nad yw hyn yn bosibl ar lefel genedlaethol hyd yma, yna dylid meithrin ymdrechion lleol i gasglu data. Mae cefndir ethnig a lleoliad yn y byd yn chwarae rhan yn amlder a goroesiad menywod sydd â chanser yr ofari. Bydd gwella data ar y gwahanol fathau o ganser yr ofari a gwella amrywiaeth y rhai sy'n cael treialon clinigol yn helpu i sicrhau bod menywod o bob cefndir ethnig yn gallu cael y triniaethau mwyaf effeithiol ar eu cyfer, ni waeth ble maent yn byw.

GWYBODAETH A CHYMORTH

Rhaid i fenywod allu cael gafael ar wybodaeth a chymorth o ansawdd da yn eu hiaith eu hunain, sy'n eu helpu i fyw'n dda gyda'r clefyd.

Dangosodd yr astudiaeth "Every Woman Study™ " ddiffyg gwybodaeth sylweddol am ganser yr ofari, gyda mwy na hanner y menywod yn dweud na chawsant y wybodaeth oedd ei hangen arnynt ar adeg y diagnosis a dim ond un-rhan o bump oedd yn gallu cael y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt ar yr adeg yr oedd ei hangen arnynt. Yn ogystal, dywedodd llawer o ferched nad oedd ganddynt anghenion cymorth iechyd meddwl heb eu diwallu. Lle y bo'n bosibl, dylai clinigwyr a grwpiau cleifion weithio gyda'i gilydd i ddatblygu adnoddau hygyrch a chymorth corfforol a meddyliol i fenywod ar bob cam – p'un a ydynt newydd gael diagnosis, dim ond allan o driniaeth, yn wynebu ailddigwydd, mewn gofal lliniarol neu ofal diwedd oes. Dylid ystyried eu lles meddyliol yn ogystal â'u lles corfforol yn gyfartal.

Gellir defnyddio'r Siarter gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn canser yr ofari i eiriol ar gyfer gwelliannau ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, neu ryngwladol. Mae llawer o gamau y gallwch eu cymryd fel unigolyn neu fel sefydliad i ddatblygu unrhyw un o Nodau'r Siarter yn eich ardal. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth a'r lincs i gofrestru fel Cefnogwr neu Bencampwr Siarter ar **worldovariancancercoalition.org/global-charter**

GLOBAL **OVARIAN** CANCER CHARTER
a World Ovarian Cancer Coalition initiative